

## Tasg Amrywiol

1. Chwiliwch am y geiriau/ymadroddion yn y llythyrau sy'n cyfateb i'r canlynol. Yna, rhowch nhw mewn brawddegau newydd:

a) caledi a phrinder

**Brawddeg newydd**

b) rhoi rhesymau i ddangos bod rhywbeth yn iawn, neu'n gyfiawn

**Brawddeg newydd**

c) heb ddiwedd

**Brawddeg newydd**

ch) defnydd o arian i wneud elw neu i ennill llog

**Brawddeg newydd**

d) talu ffordd yn llwyr

**Brawddeg newydd**

dd) cytuno'n hollol

**Brawddeg newydd**

e) ardal gyfagos

**Brawddeg newydd**

2. Esboniwch pam mae rhai geiriau **mewn print trwm** yn y frawddeg hon:

Mae adeilad fel Canolfan Mileniwm Cymru'n cynhyrchu incwm mawr yng Nghaerdydd, i fwytai a gwestai ac ati, hyd at **bum gwaith** yr arian y mae'r Cwmni Opera yn ei dderbyn, yn ôl rhai.

3. Pam mae'r llythyrwyr yn defnyddio cymaint o gwestiynau yn eu llythyrau? Beth yw'r enw ar rai o'r cwestiynau hyn?

Lluniwch gwestiynau newydd sy'n dechrau fel hyn:

- a) Faint yw cost

?

- b) Oni fyddai'n well

?

- c) Oes modd cyfiawnhau gwario

?

- d) Ai rhywbeth .....yw .....?

?